

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan Nos Fercher 11 Rhagfyr 2019

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Walter Williams

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Pearl Evans

Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Neville Hughes.

Ymddiheuriadau – gan y Cyng. Einir Williams, Dyfrig Jones, Bleddyn Williams a Paul Rowlinson.

2. Datgan Diddordeb

Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

3. Materion Brys

3.1 Coeden Nadolig – y goeden yn edrych yn wych tu allan i Gorffwysfan. Diolch i'r gofalwr am ei gosod.

3.2 Basgedi crog – rhan fwyaf wedi eu casglu. Diolch i'r gofalwr am wneud.

3.3 Mins peis – diolch i'r Cyng. Ann Williams am drefnu.

4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2019, yn ddarostyngedig i ychwanegu Eitem 10.5 - Llythyr gan Adra ynglŷn a'r ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio, tai Llwyn Bleddyn. Y Cyngor yn awyddus bydd cerbydau yn cael eu rhwystro rhag parcio ar y ffordd yn ystod y gwaith adeiladu.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Arwyddion newydd Ogwen Bank – arwyddion mawr uniaith Saesneg wedi eu gosod ar ochr y ffordd. Y Clerc i holi am ddiweddariad. Arwyddion yn ddwy ieithog bellach, ond cais cynllunio ôl-weithredol wedi ei gyflwyno ar gyfer eu gosod.

5.2 Cyffordd A5 ger Copa – problem gweledded gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

5.3 Cyfeillion Ysbyty Gwynedd – gwahoddiad i'r gwasanaeth Nadolig i ddathlu penblwydd 50 y gymdeithas. I'w gynnal yng Nghapel Carmel dydd Sul 1af o Ragfyr am 3.00yh. Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi darllen yn arbennig o dda yn y gwasanaeth.

5.4 Lloches bws Sgwar Rachub – penderfynwyd anfon cais at Cyngor Gwynedd i osod lloches cantilever heb seti ar y safle. Dim ymateb wedi dod hyd yn hyn.

6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Adroddwyd am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bartneriaeth. Bydd copi o'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gylch-redeg i bawb yn fuan. Y Cyngor yn llongyfarch Meleri am ennill dwy wobwr yn ddiweddar sef Gwobr Eiriolydd Cynaliadwyedd gan Gwobrau Academi Cynaliadwy Cymru a Gwobr Arloeswr Ynni Gwyrdd gan Gwobrau Ynni Gwyrdd Cenedlaethol. Adroddwyd hefyd bod y Bartneriaeth wedi bod yn llwydiannus gyda'r Rank Foundation fydd yn ariannu Prentis Datblygwr Cymunedol am flwyddyn.

7. Ethol Cynrychiolydd Partneriaeth Ogwen

Y Cyngor yn diolch i'r Cyng. Griff Morris am ei holl waith da a'i wasanaeth ar y Bwrdd Rheoli dros y blynyddoedd.

Etholwyd y Cyng. Dyfrig Jones fel ei olynydd.

8. Adroddiad Pwyllgor Cyllid

Pawb wedi derbyn copi o'r Adroddiad Cyllid ac yn hapus i'w dderbyn.

Y Cyng. Ann Williams am wirio defnydd o'r Gorffwysfan erbyn y cyfarfod nesaf, er mwyn penderfynnu ar y gwresogi.

Adroddwyd hefyd bod y bin halen yn Tan y Foel angen sylw.

9. Archeb 2020-21

Dechreuwyd drafod yr archeb drafft, bydd angen ei gwblhau yn y cyfarfod mis Ionawr.

10. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Cyngor ar Bopeth – adroddwyd bydd Shelter ac Age Cymru yn rhoi llai o gyngor yn y dyfodol, ond bydd cyngor ar gael gan CAB. CAB o hyd yn chwilio am wirfoddolwyr, fel cynghorwyr neu ar y Bwrdd Rheoli. Diolchwyd i'r Cyng. Godfrey Northam am yr adroddiad ac am ei waith.

11. Cae chwarae Pantdreiniog

Yn dilyn adolygu'r prisiau ar gyfer gosod yr offer penderfynwyd gohurio'r penderfyniad tan fydd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau'r ffigyrau am y caeau chwarae i'r dyfodol.

Bydd angen cael mwy o ddyfynbrisiau am y llawr i'r cae chwarae. Y Cyng. Godfrey Northam yn awyddus iawn i frw ymlaen gyda gosod yr offer newydd yn cae chwarae Talysarn, Rachub.

12. Maes Parcio Gerlan

Siomedig ydi'r diffyg ymateb gan Cadarn, dim byd pellach i'w adrodd mis yma.

13. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynoded o ohebiaeth Rhagfyr 2019'

13.1 E-bost gan Llywodraeth Cymru – ymgynghoriad: Cymru fwy Cyfartal-Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Y Cyng. Godfrey Northam am fynychu'r digwyddiad ymgynghori yng Nghonwy ar 7fed Ionawr 2020.

14. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C18/1159/13/AM

Y Wern, Hen Fferm Gerlan

Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

19NMCSC002 02 01A

Tesco, Stryd Fawr, Bethesda

Ymgynghoriad anffurfiol ynglŷn a gosod llinellau melyn

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad i osod y llinellau o flaen y siop yn unig, ac bod hefyd angen sylw i'r gwrychoedd sydd wedi gor-dyfu yn 1-3 Adwy'r Nant sydd yn cyfyngu lled y palmant.

Y19/001659

5 Rhes Victoria, Bethesda

Newid defnydd i fflat

Penderfyniad: Gwrthwynebudigon o alw gan fusnesau am ofod masnachol

Ceisiadau

C19/0863/13/LL (*y Cyng. Ann Williams wedi datgan diddordeb*)

Tir ger Ffordd Abercaseg, Bethesda

Mynedfa amaethyddol newydd

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad, cyhyd â bod y fynedfa yn amlwg, gan bod y ffordd yn gul ofnadwy.

15. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Rhagfyr)

£324.77

CThEM (Rhagfyr)

£81.00

Coeden Nadolig

£120.00

C Jones – cynllun busnes maes parcio Gerlan

£800.00

E Goodall – glanhau ffenestri Gorffwysfan

£7.50